Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Safonau'r Gymraeg

## Adroddiad Blynyddol 2025-26

Medi 2026

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

**Mae'r Comisiynydd yn gweithio tuag at Gymru sy'n arwain y gad o ran grymuso pobl hŷn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a galluogi pawb i fyw a heneiddio'n dda.**

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Trydar: @comisiwnphcymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

## Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, cysylltwch â ni.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair | 04 |
| Cyflwyniad | 05 |
| Cydymffurfedd | 06 |
| Safonau Cyflwyno Gwasanaethau | 06 |
| Safonau Llunio Polisïau (84-93) | 07 |
| Safonau Gweithredu (94-148) | 07 |
| Cadw Cofnodion | 08 |
| Cwynion Iaith | 09 |
| Sgiliau Cymraeg Staff | 09 |
| Recriwtio | 10 |
| Hyfforddiant | 10 |

# Rhagair



Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2025-26.


Fel cenedl ddwyieithog, mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'n diwylliant, ein cymunedau a'n hunaniaeth. Mae'n hanfodol bod pobl hŷn ledled Cymru yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys wrth geisio cael gafael ar wasanaethau a chymorth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae fy swyddfa wedi parhau i flaenoriaethu hawliau siaradwyr Cymraeg a sicrhau bod pobl hŷn yn gallu ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith. Rydym ni'n dal wedi ymrwymo i fod yn sefydliad cwbl ddwyieithog, lle mae'r Gymraeg yn weladwy, yn cael ei gwerthfawrogi ac yn cael ei defnyddio'n weithredol yn ein gwaith.

Rydym ni wedi gwreiddio Safonau'r Gymraeg ar draws ein gwasanaethau, ein polisïau a'n gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae ein gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn parhau i gynnig cymorth yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth ac arweiniad heb rwystrau. Rydym ni hefyd wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar gefnogi ein staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol, ond mae hefyd yn rhan hanfodol o ddarparu gwasanaethau sy'n parchu hawliau ac urddas pobl. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym ni wedi parhau i fonitro ein perfformiad, ymateb i adborth a chymryd camau gweithredu lle bo angen gwelliannau. Pan fo materion wedi codi, rydym ni wedi cymryd camau i ddysgu a chryfhau ein dull.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rwyf i wedi ymrwymo i adeiladu ar y cynnydd hwn. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws pob rhan o'n gwaith, yn cefnogi datblygiad staff ac yn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau dwyieithog o ansawdd uchel ledled Cymru.



**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

# Cyflwyniad

Fel sefydliad annibynnol sy'n cael ei ariannu gan arian cyhoeddus, mae'n rhaid i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau), sy'n nodi nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a hwyluso a hybu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Comisiynydd wedi'u rhannu'n bedwar categori:

- Cyflwyno Gwasanaethau
- Llunio Polisïau
- Gweithredu
- Cadw Cofnodion

Mae'r Comisiynydd wedi'i chyflwyno â 145 o safonau:

| | **Dyddiad Cydymffurfio: 25.01.17** | **Dyddiad Cydymffurfio: 25.07.17** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Gwasanaethau | 71 | 0 | 71 |
| Llunio Polisïau | 15 | 0 | 15 |
| Gweithredu | 47 | 2 | 49 |
| Cadw Cofnodion | 9 | 1 | 10 |
| **Cyfanswm** | **142** | **3** | **145** |

Mae hysbysiad cydymffurfio Safonau'r Gymraeg a'n Polisi Iaith Gymraeg ar gael ar ein gwefan yma.

Y Prif Swyddog Gweithredu yw'r Swyddog Iaith Gymraeg ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â holl ofynion y Safonau.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

# Cydymffurfedd

Mae’r camau penodol a gymerwyd i gydymffurfio â’r Safonau wedi’u nodi isod:

## Safonau Cyflwyno Gwasanaethau (1-82)

- Gweithwyr newydd yn derbyn gwybodaeth am Safonau’r Gymraeg yn eu pecyn sefydlu ac yn derbyn hyfforddiant ar sut i gydymffurfio â’r Safonau gan Swyddog yr Iaith Gymraeg.
- Mae’r holl saff yn gwybod sut i ymateb i ohebiaeth (llythyrau a negeseuon e-bost), ateb y ffôn, a trefnu a chynnal cyfarfodydd.
- Mae’r holl lythyrau templed yn cydymffurfio â’r Safonau.
- Mae system awtomatig ar gyfer y prif rif ffôn sy’n galluogi’r opsiwn i siarad ag aelod o staff yn Gymraeg.
- Mae’r holl negeseuon peiriant ateb yn ddwyieithog, gyda Chymraeg gyntaf.
- Mae pob aelod o staff sy’n ateb y brif linell yn gallu siarad Cymraeg.
- Mae’r holl ddogfennau sy’n cael eu cynhyrchu ar gyfer defnydd y cyhoedd yn ddwyieithog, gan ddefnyddio’r fformat wyneb i waered (mae adroddiadau hirach yn cael eu creu ar wahân yn y ddwy iaith) yn safonol, ac yn cael eu cynhyrchu mewn fformatau gwahanol i gyrraedd safonau hygyrchedd.
- Gofynnir i fynychwyr cyfarfodydd (ar-lein a wyneb i wyneb) am eu dewis iaith. Os bydd mwy na 10% yn nodi eu bod yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg, bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu.
- Mae’r holl hysbysiadau yn ddwyieithog.
- Mae’r Gymraeg yn gyntaf yn logo’r Comisiynydd
- Mae gwefan y Comisiynydd yn ddwyieithog ac yn diwallu safonau hygyrchedd yn y naill iaith a’r llall.
- Mae’r holl dendrau contract yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ar wefan GwerthwchiGymru.
- Bydd tendrau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg a bydd unrhyw gyfweliadau yn cael eu cynnal gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd.

## Safonau Llunio Polisïau (84-93)

- Mae'r holl saff yn deall Safonau Llunio Polisïau.
- Mae canllaw Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg wedi'i greu i gynorthwyo staff i gwblhau Asesiad o'r effaith ar yr Iaith Gymraeg.

## Safonau Gweithredu (94-148)

- Mae polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg wedi'i gyhoeddi ar y wefan.
- Gofynnir i'r holl staff a hoffent dderbyn eu contract cyflogaeth yn Gymraeg ac mae'r canlyniadau yn cael eu nodi.
- Gofynnir i'r holl staff a hoffent dderbyn unrhyw ohebiaeth bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth ac sydd wedi ei chyfeirio ato ef neu hi yn bersonol yn Gymraeg ac mae'r canlyniadau yn cael eu nodi.
- Gofynnir i'r holl staff a hoffent dderbyn unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud a'u hanghenion hyfforddiant a'u hamcanion perfformiad yn Gymraeg ac mae'r canlyniadau yn cael eu nodi.
- Mae'r Comisiynydd wedi holi'r holl staff a hoffent dderbyn ffurflenni sy'n nodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gweithio hyblyg yn Gymraeg.
- Mae'r holl bolisïau yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ar y gyriant lle mae modd rhannu mynediad.
- Mae'r holl staff yn ymwybodol eu bod yn gallu cyflwyno cwynion yn Gymraeg a bod ganddynt yr hawl i ymateb i gŵyn a wnaed amdanyn nhw yn Gymraeg
- Cynigir cyfle i'r holl staff gynnal cyfarfodydd ynghylch cwynion a wnaed amdanyn nhw yn Gymraeg (gan ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd).
- Bydd unrhyw gofnod o benderfyniad yn ymwneud â chwyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg.
- Mae'r holl bolisïau yn cydymffurfio â'r Safonau.
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol wedi ei ddarparu i'r holl aelodau staff sydd ei angen i wirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg (Cysgliad).
- Mae sgiliau Cymraeg yr holl staff wedi cael eu hasesu trwy hunanasesiad (gweler adran Sgiliau Cymraeg Staff).
- Mae'r Comisiynydd yn darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i staff gael hyfforddiant Iaith Gymraeg.
- Mae gwybodaeth am godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei darparu i'r holl staff newydd fel rhan o'u proses gynefino.

- Mae geiriad a logo wedi cael eu darparu ar gyfer llofnod e-bost staff i hysbysu pobl os ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu ddysgwyr.
- Mae sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag yn cael eu hasesu (gweler yr adran Recriwtio).
- Mae swyddi yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog ac yn nodi'r sgiliau iaith angenrheidiol.
- Mae hysbysebion yn nodi bod y Comisiynydd yn croesawu ceisiadau Cymraeg ac na fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
- Mae'r holl wybodaeth ynghylch recriwtio yn cael ei chyhoeddi yn ddwyieithog.
- Mae ffurflenni cais yn darparu lle i unigolion nodi os ydynt yn dymuno defnyddio Cymraeg yn y cam cyfweld a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os oes angen.

## Cadw Cofnodion

- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o nifer y cwynion mae hi'n ei derbyn yn ymwneud ag ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. Derbyniwyd un gŵyn yn 2025/26.
- Mae'r Comisiynydd yn cadw copi o unrhyw gwynion mae hi'n eu derbyn yn ymwneud â'r Safonau.
- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o gamau a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau Gwneud Polisïau.
- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o sgiliau Cymraeg yr holl staff ac yn cadw'r hunanasesiadau.
- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o'r asesiadau mae hi'n eu cynnal ar gyfer sgiliau Cymraeg swyddi newydd neu wag.
- Mae'r Comisiynydd yn cadw cofnod o sut mae'r holl swyddi newydd neu wag wedi cael eu categoreiddio o ran y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen.

# Cwynion Iaith

Yn ystod 2025/26, derbyniwyd un cwyn ynghylch cydymffurfedd y Comisiynydd â Safonau'r Gymraeg.

Cynhaliodd y Rheolwr Cwynion ymchwiliad trylwyr a phenderfynodd gadarnhau'r gŵyn. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad wedi cael ei roi ar waith.

# Sgiliau Cymraeg Staff

Ar 31 Mawrth 2026, cyflogodd y Comisiynydd 17 aelod o staff. Cynhaliwyd arolwg y Gymraeg yn ystod mis Mawrth 2026. Roedd yn gofyn i staff hunanasesu eu sgiliau gan ddefnyddio matrics rhuglder ar gyfer Gwrando, Darllen, Ysgrifennu a Siarad. Fe wnaeth y Comisiynydd a 17 aelod o staff ymateb i'r arolwg. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn nhablau 1 a 2 isod, gan ddangos bod 56% o'r sefydliad yn ystyried eu hunain fel siaradwyr Cymraeg hyfedr.

## Tabl 1 - Sgiliau Cymraeg yr holl staff

| | Gwrando | Darllen | Ysgrifennu | Siarad |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Dim Sgiliau | 2 | 2 | 4 | 5 |
| 1 – Mynediad | 4 | 4 | 3 | 2 |
| 2 – Sylfaen | 1 | 2 | 3 | - |
| 3 – Canolradd | 1 | 1 | - | - |
| 4 – Uwch | 3 | 2 | 3 | 4 |
| 5 – Rhugl | 7 | 7 | 5 | 7 |

## Table 2 - Welsh language skills of all staff at Band level

| Lefel | Band | | | | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | C | D | E | F | Comm | |
| **Dim Sgiliau** | - | - | 2 | - | - | - | 2 |
| **Mynediad** | 1 | 1 | 2 | - | - | - | 4 |
| **Sylfaen** | - | - | - | - | 1 | - | 1 |
| **Canolradd** | - | - | - | - | - | - | - |
| **Uwch** | - | 2 | - | - | 1 | - | 3 |
| **Rhugl** | - | 2 | 3 | 1 | - | 1 | 7 |

Yn ystod 2025/26, mae'r Comisiynydd wedi parhau'n ymroddedig i ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i bob gweithiwr gael hyfforddiant iaith Gymraeg, wedi'i ariannu'n llawn gan y sefydliad.

Mae pob aelod o staff yn gallu cael gafael ar adnoddau a dysgu ar-lein o wefan DysguCymraeg.

Cwblhaodd un aelod o staff Uwch 2 gyda Dysgu Cymraeg ym mis Mehefin 2025.

# Recriwtio

Pan fydd swydd newydd neu wag yn codi, bydd y Prif Swyddog Gweithredu yn cwblhau asesiad o'r sgiliau Cymraeg ar gyfer y rôl. Bydd yr asesiad yn pennu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rôl honno ar sail gofynion y rôl, ee yn wynebu'r cyhoedd, darparu cyngor a chymorth i bobl hŷn yn uniongyrchol.

Yn ystod 2025/26, cafodd dwy swydd eu hysbysebu drwy recriwtio allanol. Nodwyd bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y ddwy swydd, ac mae'r ymgeisydd llwyddiannus a benodwyd i un o'r swyddi yn siaradwr Cymraeg rhugl.

# Hyfforddiant

Ni chafodd unrhyw hyfforddiant ei gyflwyno yn Gymraeg na Saesneg ar bynciau megis recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwynion a threfn disgyblu, y broses cynefino, a delio â'r cyhoedd.

Mae'r holl hyfforddiant gorfodol sydd ar gael drwy ein porth e-ddysgu ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Comisiynydd
Pobl Hŷn
Cymru

Older People's
Commissioner
for Wales